


Gêm rif 3

Defnyddiwch dri dis.

Os un dis yn unig sydd gennych, rhoiwch hwnnw

3 gwaith.



- ◆ Gnewch rifau tri digid, e.e. os ydych yn rholio 2, 4 a 6, gallech wneud 246, 264, 426, 462, 624 a 642.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn dalgrynnu'r rhif tri digid i'r lluosrif 10 agosaf. Gwiriwch os ydyw'n gywir, e.e.
76 i'r lluosrif 10 agosaf yw 80.
134 i'r lluosrif 10 agosaf yw 130.
(Bydd rhif sy'n gorffen mewn **5** yn **talgrynnu i fyny** bob tro)
- ◆ Rholiwch eto. Y tro hwn, talgrynnwch rifau tri digid i'r 100 agosaf.

Tablau

Beth am ymarfer tabl 3, 4 a 5. Dwedwch y tablau ymlaen ac yn ôl. Gofynnwch gwestiynau fel hyn i'ch plentyn:

Beth yw pum tri?

Saith gwaith tri?

Beth yw 15 wedi ei rannu â 5?

Sawl tri sydd yn 21?

$$8 \times 3 = 24 \quad 24 \div 3 = 8$$


Mesur

Defnyddiwch dâp mesur sy'n dangos centimetrau.

- ◆ Cymerwch dro i fesur hyd pethau gwahanol, e.e. hyd sofa, lled bwrdd, hyd bath, uchder drws.
- ◆ Cofnodwch y mesuriadau mewn centimetrau, neu fetrau a chentimetrau os yw'n fwy na metr, e.e. os yw'r bath yn 165 cm o hyd, gallech ddweud ei fod yn 1m 65cm (neu 1.65m).
- ◆ Ysgrifennwch yr holl fesuriadau mewn trefn.

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 4

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Blwyddyn 4 ¹

Erbyn diwedd Blwyddyn 4, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Gwybod tabl 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10 ar eu cof, e.e. gwybod ffeithiau fel 7×5 a $36 \div 4$.
- Talgrynnu rhifau fel 672 i'r 10 neu'r 100 agosaf.
- Dangos bod ffracsiwn syml fel $\frac{2}{6}$ yn gywerth â $\frac{1}{3}$.
- Cyfrifo symiau fel $26 + 58$ a $62 - 37$ yn eu pen.
- Gwneud symiau fel $234 + 479$ neu $791 - 223$ gan ddefnyddio papur a phensil a'u hysgrifennu mewn colofnau.
- Lluosi rhifau fel $38 \hat{a} 10$ neu 100, a rhannu rhifau fel $4200 \hat{a} 10$ neu 100.
- Lluosi a rhannu rhifau hyd at $100 \hat{a} 2, 3, 4$ neu 5, a dod o hyd i'r gweddill, e.e. $36 \times 3, 87 \div 4$.
- Newid punnoedd yn geiniogau a chentimetrau yn fetrau, ac fel arall, e.e. gweld bod £3.45 yr un peth â 345c, a bod 3.5 metr yr un peth â 350 centimetr.
- Dweud faint o'r gloch yw hi i'r funud agosaf a defnyddio amserlen syml.
- Dewis siapiau â nodweddion tebyg, e.e. siapiau ag ochrau o'r un hyd, neu ag onglau sgwâr, neu siapiau cymesur.
- Defnyddio $+$, $-$, \times , \div i ddatrys problemau a phenderfynu a fyddai'n well cyfrifo yn y pen neu ar bapur.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 4.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gallu tynnu 497 o 506 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn gyflymach cyfrif ymlaen o 497 i 506 yn eu pennau.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Gêm rif 1

Bydd angen 20 cownter neu ddarn arian.

- ◆ Cymerwch dro. Rholiwch ddau ddis i wneud rhif dau ddigid, e.e. os rholiwch 4 ac 1, gallai hyn fod yn 41 neu'n 14.
- ◆ Adiwch y ddau rif hyn yn eich pen. Os ydych yn gywir, rydych chi'n ennill cownter. Dwedwch wrth eich partner sut gyfrifoch chi'r swm.
- ◆ Y cyntaf i gael 10 cownter sy'n ennill.

Nawr ceisiwch dynnu'r rhif lleiaf o'r rhif mwyaf.

Gêm rif 2

- ◆ Dodwch dominos wyneb i waered.
- ◆ Shifflwch nhw.
- ◆ Dewiswch ddomino yr un.
- ◆ Lluoswch y ddau rif ar eich domino.
- ◆ Yr un sydd â'r ateb mwyaf sy'n cadw'r ddau ddomino.
- ◆ Yr enillydd yw'r un sydd â'r nifer mwyaf o ddominos ar ôl defnyddio'r cyfan.

